# Yr Adran Orthopteg

# Cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio Cyclopentolate adeg Profion Golwg Plant Gwybodaeth i gleifion

**Mae eich plentyn angen prawf ar gyfer sbectol ac archwiliad manwl o gefn y llygad…**

I alluogi'r Optometrydd/ Offthalmolegydd i wneud hyn, mae'n rhaid rhoi diferion yn llygaid eich plentyn. Mae'r diferion yn ymledu'r canhwyllau ac yn atal ffocysu. Rhaid rhoi'r diferion i mewn 30-45 munud cyn apwyntiad eich plentyn.

**Cyclopentolate**
Dyma'r diferion fydd yn ymledu'r canhwyllau (eu gwneud yn fwy) ac atal eich plentyn rhag ffocysu. Mae hyn yn rhoi golwg clir i'r Optometrydd/ Offthalmolegydd ar gefn y llygad (retina) ac yn sicrhau prawf sbectol mwy cywir.

Drwy ddal lensys a symud llinell o olau ar draws y retina, gall yr Optometrydd/ Offthalmolegydd fesur cryfder y sbectol sydd ei angen.

**A oes sgil effeithiau?**

- Gall y golwg fod yn gymylog am hyd at 6 awr a gall y canhwyllau fod yn fawr am hyd at 48 awr.
- Tra bod y gannwyll wedi ymledu, ni fydd eich plentyn yn hoffi golau llachar.
- Yn anghyffredin iawn, gall adwaith alergaidd ddigwydd. Gall hyn esgor ar lygaid coch, croen sych neu wridog yn benodol. **Os bydd hyn yn digwydd, peidiwch â rhoi'r diferion a chysylltwch â'r Clinig Llygaid (01633 238856) neu â'ch Meddyg Teulu.**

**Cyfarwyddiadau ar gyfer rhoi diferion yn llygaid plant:**

- Storiwch y diferion ar dymheredd ystafell ac allan o gyrraedd plant. Rhowch y diferion i mewn 30-45 munud cyn amser yr apwyntiad.
- Golchwch eich dwylo cyn ac ar ôl rhoi'r diferion yn y llygad.
- Gyda eich plentyn yn gorwedd lawr, rhowch un neu ddau ddiferyn o Cyclopentolate ym mhob llygad.
- Os bydd gennych unrhyw amheuaeth am roi'r diferion i mewn, dewch i'r clinig llygaid a gofynnwch i Nyrs neu Orthoptydd am gymorth.
- Peidiwch â'u defnyddio heblaw ar y person a gafodd y presgripsiwn.
- Ar ôl eu hagor, peidiwch â'u hail-ddefnyddio.
- Ar ôl eu defnyddio, gwaredwch y diferion sydd ar ôl a'r pecyn.

**Nodiadau neu gyfarwyddiadau pellach:**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**